



## UMPA

### Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

20 Mai 2016

### Ystafell Bwyllgor

---

#### Presennol:

Lewis Donnelly (LD) -- Llywydd UMPA, Cadeirydd ac Ymddiriedolwr  
Hanna Medi Merrigan (HMM) – Materion Cymreig UMPA a Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwr  
Ieuan Gregory (IG) – Swyddog Lles Myfyrwyr UMPA ac Ymddiriedolwr  
Kelly Keat (KK) – Swyddog Gweithgareddau Myfyrwyr UMPA ac Ymddiriedolwr  
Lauren Marks (LM) - Swyddog Addysg UMPA ac Ymddiriedolwr  
Peter Curran - - Ymddiriedolwr Allanol UMPA  
Sam Bache (SB) - Ymddiriedolwr Israddedig UMPA  
Alastair Wager (AW) - Ymddiriedolwr Ôl-raddedig UMPA

#### Yn gwasanaethu:

Trish McGrath (TM) - Prif Weithredwr UMPA  
Catrin Hopkins (CH) - Swyddog Cyllid UMPA (yn bresennol ar gyfer yr adran ar gyllid)  
Annmarie Evans (AE) Cynorthwydd Gweithredol i Fwrdd UMPA (yn cymryd cofnodion)  
Swyddogion Etholedig - Sylwedyddion  
Daniel Benham (DB) - Cyfarwyddwr Cyllid y Brifysgol (yn bresennol ar gyfer Darpariaeth Gyllidol)  
Mark Godsell (MG) - Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol y Brifysgol (yn bresennol ar gyfer Darpariaeth Gyllidol)

## **GWEINYDDIAETH Y CYFARFOD**

### 1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Estelle Hart – Ymddiriedolwr Allanol UMPA  
Sue Parnell - Ymddiriedolwr Allanol UMPA

### 2. Datganiadau o Fuddiannau

Hysbysodd AW y Bwrdd ei fod yn aelod o Staff Myfyrwyr UMPA.

### 3. Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 24 Mawrth fel cofnod cywir o'r hyn a drafodwyd.

#### **Cymeradwywyd**

### 4. Materion yn Codi

Ymdriniwyd ag unrhyw faterion sy'n codi yn yr eitemau ar yr agenda. Atgoffodd y Cadeirydd bawb ynglŷn â chyfrinachedd yr eitemau i'w trafod.

#### **Nodwyd**

## **STRATEGAETH**

### **5. Cyllid: Cyfrifon Rheolaeth**

Nododd CH bod y Cyfrifon Rheolaeth hyd at ddiwedd Ebrill 2016 yn dangos diffyg ariannol o £140k yn erbyn y targed yn y gyllideb. Esboniodd CH ei bod hi wedi cael trafodaethau â'r tîm Bwyd a Diod i edrych ar y gwahanol opsiynau o ddefnyddio cyflenwyr rhatach a lleihau costau staff. Gofynnodd i'r Bwrdd nodi, o Ebrill ymlaen, bod costau'r gysylltiedig â'r Cyflog Byw Cenedlaethol ar gyfer pobl dros 25 oed, nad oedd wedi cael eu cynnwys yn y gyllideb.

#### **Nodwyd**

Diolchodd PC i CH am ei hadroddiad, ond holodd os oedd y Cyflog Byw Cenedlaethol wedi cael ei gynnwys yng nghyllideb y flwyddyn nesaf. Sicrhawyd y Bwrdd bod y gost yma wedi cael ei chynnwys yn y strwythur cyflogau a'r gyllideb wrth symud ymlaen.

Hysbysodd CH y Bwrdd ymhellach, pe baem yn mabwysiadu polisi o dalu'r Cyflog Byw Cenedlaethol i bobl o bob oedran, y byddai'n costio £7k ychwanegol i ni. Trafododd y Bwrdd oblygiadau hyn, yn unol â'n Rhaglen Newid, a chytunwyd y byddai hyn yn cael ei drafod fel un o'n gwerthoedd.

#### **Gweithred - TM**

### **6. Adroddiad y Prif Weithredwr (cyfrinachol)**

Rhoddodd TM grynodedd o weithredoedd a chynnydd UMAber ers iddi ddechrau yn y swydd ar 25 Ebrill.

- Sefydlu - cyfarfodydd â phawb sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr, y Swyddogion Llawn-amser, a chyfarfod â'r holl staff.
- Rhaglen Newid - trafodwyd hyn dan eitem 7 ar yr Agenda
- Cynllun Strategol - Cynhaliodd Gwasanaethau UCM Cyf. gyfres o grwpiau ffocws i ddatblygu holiadur i'w anfon allan i fyfyrwyr - diweddariad i'w ddarparu yng nghyfarfod nesaf yr Ymddiriedolwyr.
- Cyllideb Ddrafft - cynhaliwyd cyfarfodydd â Chyfarwyddwr Cyllid y Brifysgol, ond mae trafodaethau'n dal i gael eu cynnal ynglŷn â'r grant bloc terfynol a'r cais i ddileu ein dyled.
- Unsain - gweithio ar gytundeb cydnabyddiaeth
- Sgwrs Strategol UCM / Rhwydwaith Prif Weithredwyr UCM Cymru - mynychwyd gan y Prif Weithredwr a'r Llywydd
- Trosglwyddo'r awenau a sefydlu'r swyddogion newydd - rydym wrthi'n cynllunio, drwy adeiladu ar yr adolygiad a gynhaliwyd gan Dan Francis
- Gwobrau Chwaraeon, Gwobrau Cymdeithasau a Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr - mynychwyd y rhain gan nifer dda o bobl, ac roedd yr awyrgylch yn bositif dros ben. Dathlwyd cyraeddiadau ein myfyrwyr a staff y Brifysgol.
- Rygbi 7-bob-ochr a'r *Space Ball* - roedd y rhain yn llwyddiant mawr, gan greu incwm a chryn lawer o gyffro.

Diolchodd TM ymhellach i staff a swyddogion am estyn croeso cynnes iddi.

#### **Nodwyd**

### **7. Rhaglen Newid (Cyfrinachol)**

Diweddarodd TM y Bwrdd ynglŷn â datblygiadau o'i chyfarfodydd â'r Brifysgol:

## **Graddfa gyflog**

[REDACTED]

Gofynnodd TM i'r Bwrdd ystyried pa raddfa gyflog maen nhw eisiau ei defnyddio, Dewis 1 neu Ddewis 2 (cytunwyd o'r blaen)

## **Cymeradwywyd Dewis 2**

[REDACTED]

[REDACTED]

## **Darpariaeth Gyllidol**

[REDACTED]

Daeth DB a MG i mewn i'r ystafell i esbonio'r rheswm dros y cynnig hwn ac i ateb unrhyw gwestiynau oedd gan y Bwrdd.

Roddodd DB esboniad manwl ynglŷn â pham ei fod yn credu y dylai'r Brifysgol gymryd drosodd ein darpariaeth gyllidol. Esboniodd yr anawsterau cyllidol sy'n wynebu'r Brifysgol a nododd eu bod yn edrych ar arbedion effeithlonrwydd ar draws pob adran, gan gynnwys rhannu adnoddau ac arferion gorau. Nododd, er y byddai ein darpariaeth ariannol yn adrodd yn ôl i'r Brifysgol, y byddai gwasanaethau'n parhau i fod yn annibynnol. Hefyd awgrymodd y gellid rhoi cynnig ar y drefn hon am flwyddyn ac yna adolygu'r sefyllfa.

Nododd PC fod angen i ni gofio bod cyfansoddiad yr Undeb ar wahân i'r Brifysgol. Teimlodd nad oedd cynnig clir wedi cael ei roi na dadleuon cryf ynglŷn â pham dylai'r Undeb fynd i mewn i gytundeb o'r fath. Yn ogystal â hyn, nid oedd unrhyw eglurdeb ynglŷn â sut byddai hyn yn effeithio ar ein grant bloc na'r ddyled bresennol sydd arnom i'r Brifysgol.

Dyma'r cwestiynau a ofynnwyd:

**Pe bai aelod o'r ddarpariaeth gyllidol yn gadael, faint o fewnbwn fyddai gan yr Undeb o ran gwneud y penodiad newydd?** Nododd DB y byddai'n broses gyfweled ar y cyd, ac ni fyddent yn penodi oni fyddai'r naill ochr a'r llall yn cytuno ar yr ymgeisydd.

**Pe bai angen gwneud toriadau yn y cyllid yn nes ymlaen, sut fydden ni'n sicrhau bod swyddogaeth graidd ein clybiau/cymdeithasau'n cael ei chynnal?** Esboniodd DB y byddai hwn yn benderfyniad a wneir gan yr Undeb dan y cytundeb ar gyfer grant bloc. Esboniodd ymhellach na fyddai o fudd iddyn nhw dorri'r gwasanaethau yma, ac mae hwn yn rhywbeth y gellid edrych arno o fewn y cytundeb lefel gwasanaeth. Hefyd esboniodd os nad oeddent yn fodlon â'r gwasanaeth, y gallem ddod â'n cytundeb i ben.

**Fyddai ein grant bloc yn cael ei gwtogi?** Nododd DB mai cyfrifoldeb yr Undeb fyddai cytuno ar gyllideb fyddai ei hangen i gynnal eu gweithgareddau.

**A fyddai ein dyled i'r Brifysgol yn cael ei dileu?** Dywedodd DB y byddai'n fodlon mynd â'r cynnig hwn i gyfarfodydd y Brifysgol, gydag ymagwedd newydd at helpu'r UM.

**Beth fyddai'n digwydd pe baem ni'n dweud na i'r cynnig hwn?** Esboniodd DB y byddai'n rhannu ei farn â Phwyllgor Cyllid a Strategaeth y Brifysgol, sef bod popeth yn bosib.

Gadawodd DB a MG yr ystafell

Parhaodd y Bwrdd â'u trafodaeth a phenderfynwyd nad nawr oedd yr amser i fynd â'r cynnig hwn yn ei flaen, ond dylid cadw'r dewis hwn yn agored a dychwelyd ato yn y dyfodol.

**Gwrthodwyd y Ddarpariaeth Gyllidol am y tro**

## **LLYWODRAETHIANT**

### **8. Adroddiad Etholiadol**

Hysbysodd TM y Bwrdd fod y papur hwn wedi'i lunio gan ein Cydlynnydd Ymgyrchoedd a Democratiaeth. Esboniodd y bydd cryn lawer o newid wrth symud ymlaen, a chaiff gweithgor etholiadau ei ffurfio i ddechrau edrych ar welliannau a sut i ymgysylltu â mwy o fyfyrwyr. Os oes unrhyw beth rydych chi am i ni roi ystyriaeth iddo yn y dyfodol, yna rhowch wybod i ni.

**Nodwyd**

### **9. Canlyniad y CCB**

Hysbysodd LD y Bwrdd nad oedd cworwm i'r CCB, felly mae wedi cael ei symud i fis Hydref.

**Nodwyd**

### **10. Dyddiad ac Amser y Cyfarfod nesaf:**

Caiff dyddiad y cyfarfod ei ail-drefnu, yn unol â'r cytundeb, ar gyfer diwedd Mehefin.

**Nodwyd**

**Daeth y cadeirydd â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i'r Ymddiriedolwyr ar ran y Swyddogion oedd yn dod i ddiwedd eu cyfnod yn y rôl, gan ddweud nad oedd unrhyw amheuaeth ganddo na fyddai'r Swyddogion Etholedig yn gwneud gwaith gwyh.**

**Diolchodd PC i'r Swyddogion presennol am eu hymroddiad a'u proffesiynoldeb, yn ystod cyfnod mor anodd yn y swydd.**